# Hawl i Farw yn Gymraeg

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Maisie Edwards, Kelsey Stoddart, Dr Alwena Morgan[1]
1. Cyfadran Meddygaeth, Gofal iechyd a Gwyddor Bywyd, Prifysgol Abertawe

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

## Cyflwyniad

**Beth yw gofal lliniarol?**

- Dull o ofal iechyd sy'n gwella ansawdd bywyd pobl a'u teuluoedd sy'n wyneb heriau sy'n gysylltiedig gyda salwch sy'n peryglu bywyd.
- Mae'n atal a lleddfu dioddefaint trwy adnabod poen a phroblemau eraill yn gynnar, asesu'n gywir a thrin poen a phroblemau eraill, boed yn gorfforol, seicolegol neu'n gymdeithasol.

**Pam fod iaith yn bwysig yn y cyd-destun hwn?**

- Mae marwolaeth yn bwnc heriol i'w drafod mewn unrhyw iaith (Green et al., 2018) ond mae diwylliant yn dylanwadu'n sylweddol ar sut mae unigolion yn deall ac yn cyrchu gofal diwedd oes (Mayeda & Ward, 2019).
- Mae'n hanfodol bod gan ddarparwyr gofal iechyd ymwybyddiaeth ieithyddol, gan fod cyfathrebiad effeithiol yn allweddol i sicrhau darpariaeth gofal iechyd o ansawdd (Irvine et al.,2006).
- Serch hynny, ceir prinder ymchwil ar rôl y Gymraeg yn y maes hwn, gan amlygu'r angen am dystiolaeth i lywio polisïau ac ymarfer sy'n adlewyrchu dewis ieithyddol a diwylliannol cleifion.
- **Ymchwilia'r astudiaeth hon i ganfyddiadau gofalwyr iechyd proffesiynol o ddefnydd y Gymraeg wrth ddarparu gofal lliniarol.**

## Dulliau

Nod: Casglu barn a phrofiadau gofalwyr iechyd Cymru ynghylch defnydd y Gymraeg o fewn Gofal Lliniarol.

Datblygu, dosbarthu a chylchredeg holiadur.
Hyd yma, derbyniwyd 73 ymateb.

Hyd yn hyn, cynhaliwyd 2 gyfweliad lled-strwythuredig.

Cynnal dadansoddiad sy'n tynnu allan prif syniadau'r ymatebion blwch testun yn yr holiadur a thrawsgrifiadau'r cyfweliadau er mwyn gwneud synnwyr o'r data (Braun & Clarke, 2006).

## Canlyniadau Ansoddol Cychwynnol

### Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolion

"...gwneud iddynt **deimlo'n fwy cartrefol**"

"Maent yn gallu siarad am eu teimladau a **dweud beth sydd yn bwysig iddynt ar ddiwedd eu hoes.**"

**"...creu 'bond'"**

"Pan yn **wynebu marwolaeth** ac yn **dioddef symptomau gwael**, mae'r **cyfle** i **siarad, gwrando a deall** y sefyllfa er mwyn bod y claf yn gallu **trafod y symptomau, sylweddoli bod marwolaeth ar y gorwel, derbyn a pharatoi** am yr amser sydd gyda nhw ar ôl yn holl bwysig"

**"Mae'r gallu i siarad Cymraeg gyda chleifion a'u perthnasau yn angenrheidiol mewn gofal lliniarol."**

### Cydnabod Pwysigrwydd Amlieithrwydd

"Mae canolbwyntio ar y Gymraeg yn bwysig ie, ond **mae ieithoedd eraill hefyd yn bwysig, er enghraifft Pwyleg ac ieithoedd Indiaidd."**

"...dylid canolbwyntio ar **anghenion cyfathrebu unigol** ac **amrywiaeth.**"

### Cleifion gyda Dementia

"**Os nag oes capasiti gyda'r claf** i wneud penderfyniadau pwysig am eu dyfodol yn Saesneg, **rhaid rhoi'r cyfle iddynt gyfathrebu yn y Gymraeg.**"

"... dim ond y rhai oedd yn siarad Cymraeg ag ef yr oedd yn eu deall. Roedd fel pe bai wedi mynd yn ôl mewn amser, **roedd yn llai cynhyrfus**, **wedi'i gysuro**, yn dawel ac yn **deall beth oedd yn digwydd** pan siaradwyd ag ef yn y Gymraeg..."

### Heriau Staff Wrth Ddarparu Gofal Iechyd Dwyieithog

"Nid wyf yn credu bod y staff sydd ddim yn ddwyieithog yn **deall faint o wahaniaeth mae defnyddio'r iaith yn gallu gwneud i'r gofal ac i'r claf.**"

**"**Gan fod rhan fwyaf o'r cleifion hefyd yn siarad Saesneg **mae 'na dueddiad i'r staff barnu bod siarad Cymraeg yn anghyfleus iddynt**."

"Rwyf wedi cael achosion ble rwyf wedi bod ar ymweliad **gyda chydweithiwr uniaith Saesneg ac mae'r cleientiaid yn troi ataf i bob amser** a chyfathrebu trwy'r Gymraeg."

### Dysgu Cymraeg

"Rydw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers blynyddoedd lawer. **Byddwn i byth yn ddigon cymwys i fod yn hyderus yn ymgynghori mewn lleoliad gofal lliniarol sy'n gofyn am gyfathrebu cywir/manwl yn y Gymraeg.**"

"Rwy'n credu'n gryf y dylid **annog** yr holl staff i **ddysgu Cymraeg sylfaenol**."

## Casgliad

- **Mae sensitifrwydd tuag at y Gymraeg a'r cyfle i drafod cynlluniau gofal lliniarol a diwedd oes drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i gyfathrebu, mynegiant a lles cleifion.**
- **Mae angen datblygu strategaethau sy'n mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn gan barhau i ganolbwyntio ar anghenion cyfannol cleifion unigol.**

## Cyfeirnodau

Braun, V., & Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. Qualitative Research in Psychology, 3, 77–101. doi:10.1191/1478088706qp063oa

Green, A., Jerzmanowska, N., Green, M., & Lobb, E. A. (2018). 'Death is difficult in any language': A qualitative study of palliative care professionals' experiences when providing end-of-life care to patients from culturally and linguistically diverse 110 backgrounds. Palliative Medicine, 32(8), 1419–1427. https://doi.org/10.1177/0269216318776850

Irvine, F. E., Roberts, G. W., Jones, P., Spencer, L. H., Baker, C. R., & Williams, C. (2006). Communicative sensitivity in the bilingual healthcare setting: A qualitative study of language awareness. Journal of Advanced Nursing, 53(4), 422–434. https://doi.org/10.1111/j.1365-2648.2006.03733.x

Mayeda, D. P., & Ward, K. T. (2019). Methods for overcoming barriers in palliative care for ethnic/racial minorities: A systematic review. Palliative & Supportive Care, 17(6), 697–706. https://doi.org/10.1017/S1478951519000403